

586/51

**CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY6**  
**(FIRST LANGUAGE)**

DEFNYDDIO'R IAITH A GWERTHFAWROGI  
RHYDDIAITH A BARDDONIAETH

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD MERCHER, 20 Mehefin 2007

(3 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **pedwar** cwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol a chyfeirio at farn eraill lle bo hynny'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Dylech dreulio tuag **AWR** ar bob adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Oherwydd gofynion pwysoli bydd y cyfrifiadur yn lluosu'r marciau fel a ganlyn:

	Marciau ar y papur	Pwysoli	Marciau Terfynol
Adran A	90	× 1	90
Adran B	40	× 3	120
Adran C	60	× 1.5	90

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A – RHYDDIAITH

1. Darllenwch yn ofalus hanes gŵr wedi i'w wraig Glenda ei adael am ddyn arall, yna atebwch y cwestiynau a ganlyn.

### DIANC

Pan aeth pethau o chwith, ac yntau'n clepian y drws y tu ôl iddo, yr ymateb difeddwl oedd mynd am y car a theimlo'r gwahanol ddarnau o offer yn gyfarwydd o dan ei ddwylo. Dyna'r peth naturiol i ddyn ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Llithrodd ei gorff i mewn i'r siâp cartrefol yn y sedd ac aeth ei fysedd i'w hystum greddfol wrth wasgu am y llyw.

Yn y car, roedd ganddo fo rywfaint o reolaeth unwaith eto. Fo oedd yn penderfynu lle i fynd, er mai ar fymppy, neu trwy rym arferiad, y trodd i'r chwith ar waelod y stryd a gyrru rhwng y rhesi unffurf o dai i gyfeiriad y draffordd.

Wrth roi'r arwydd i droi ar y rowndabowt cynta, feddylodd o ddim ar y pryd mai dyna fyddai'r tro ola iddo weld y clwstwr siopau llwydaidd a'r blwch ffonio diwerth, a'i ddrws wedi hen fynd a'r offer yn hongian oddi ar y wal bella yn segur a di-alwad. Prin y gwelodd o nhw o gwbl, a'i feddwl yn dal yn llawn o wyneb Glenda, yn gymysgedd o her ac ofn, wrth iddi gadarnhau'r hyn yr oedd o'n wybod ers wythnosau. Doedd o ddim yn crio; cymysgedd o ddieter a siom oedd yn cymylu'i lygaid. Doedd yna ddim sicrwydd o gwbl y byddai Glenda'n trio chwilio amdano fo. Mae'n siŵr y byddai hi'n ddigon balch gweld ei gefn o, a chael y diawl arall draw i gymryd ei le.

Mynd oedd y bwriad. Heb anelu am unman penodol. Dim ond mynd. Cario 'mlaen i yrru nes bod y ffordd yn dod i ben. Ond, wrth gwrs, fyddai hi ddim. Nid ffyrdd i gyrraedd rhywle oedd y lonydd newydd, dim ond system ddiiddiwedd i gadw pawb i symud. Ac felly y sylweddolodd yn sydyn ei fod o ar y ffordd gylch ar gyrion y dre a'i fod yn pasio'r un arwyddion am yr ail neu'r trydydd tro.

Mi wnaeth benderfyniad ymwybodol a llithro i'r gilffordd am y draffordd ei hun. Roedd o'n teimlo'n well o wneud. Roedd yna rywbeth cysurlon yn llif y ceir o'i gwmpas, rhyw fath o lonyddwch yn y gwibio. Mi fyddai'n aml yn meddwl am yr holl bobl ddiwyneb y tu mewn i'w cerbydau. Roedd hi'n anodd dychmygu fod ganddyn nhw fodolaeth arall y tu allan i'w ceir a bywydau llawn helyntion neu hapusrwydd yn dirwyn y tu ôl iddyn nhw i gyd wrth iddyn nhw yrru, fel edafedd neu fwg egsost.

Mi allai fod wedi mynd am oriau. Corn yn canu'n ffyrnig wrth iddo droi ar y funud ola oddi ar y draffordd i mewn i'r gwasanaethau. Yn sydyn y newidiodd ei feddwl a throi'n siarpach fyth i'r maes parcio a gweld poeriad o law ar y ffenest flaen wrth iddo godi'r brêc a throi'r allwedd tuag ato.

Mi fuodd yn eistedd yno am ychydig, yn gwyllo'r bobl yn mynd a dod . . . trafaelwyr yn gwisgo'u siacedi'n ofalus tros grysau gwyn wrth gamu o'u ceir cwmni, ac ambell blentyn yn cael ei lusgo'n anfoddog wrth rwbio'r cwsg o'i lygaid. A'r cyfan yn digwydd heb sŵn ond murmur y traffig ar y draffordd y tu hwnt i'r llwyni coed, fel gwyllo teledu a'r sain wedi'i ddiffodd.

Gogoniant caffi mewn canolfan wasanaethau ar draffordd oedd fod cynifer o bobl yno. Roedd y drysau otomatig yn agor a chau fel ceg pysgodyn a miloedd ar filoedd bob awr yn cael eu llyncu a'u poeri allan. Mi fedrwch fod yn unig mewn tyrfa fawr, mi fedrwch ddiplannu hefyd heb i neb eich gweld chi.

Nid penderfynu peidio â mynd adre wnaeth o, dim ond peidio â phenderfynu mynd. Erbyn hynny, roedd o wedi cyrraedd gwasanaethau eraill ar draffordd arall ac yn gwyllo paned arall yn oeri. Hyd yn oed am dri y bore, roedd y goleuadau yno yn llachar a phobl yn dal i fynd a dŵad, yn edrych bron yn union fel yr oedden nhw am hanner dydd. Doedd dim angen ichi wybod pa amser o'r dydd oedd hi. Yn ddiweddarach, mi fyddai'n dechrau sylwi ar y mân arwyddion, fel llwythau crwydrol yn sylwi ar symud yr haul . . . y pentyrrau papurau newydd yn cyrraedd y siop, y gyrrwyr lorriss yn crynhoi a'r swyddogion diogelwch yn newid shift.

Mi gymerodd amser iddo fo arfer efo hynny.

- (i) Cyflwynwch a dadansoddwch gynnwys y darn **yn eich geiriau eich hun.** [30]
- (ii) Dadansoddwch arddull y darn. [30]
- (iii) Ysgrifennwch am weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc neu bynciau tebyg. Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [30]

*(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)*

### ADRAN B – DEFNYDDIO'R IAITH

2. Wedi wynebu siom, disgrifiwch eich teimladau wrth i chi ymweld â lle arbennig **neu** wrth wneud rhywbeth arbennig. Gall y gwaith fod yn waith dychmygol. (Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen.) [20]
3. Cyfieithwch y darn canlynol i'r Gymraeg. [20]

Jane, who had been at school with me, was a pale and frail girl. She joined me as a maid at The Valley Farm. I had been especially fond of her younger brother Reg, who was deaf. We were not allowed into the main rooms in the farmhouse but instead were given a bench and table in a back room. I was only allowed inside the house once during my year on the farm to look after the baby, but being tired I fell asleep.

Never before in my life had I been so hungry. I can remember in the winter lying in a field, so that the farmer could not see me, eating carrots. Tears were flowing down my cheeks because I felt so homesick. Had I gone home, my father would not have believed my story and I would have had to suffer more on returning. Jane was an angel and she used to look after me. When she was preparing food she always used to keep a little aside for me. When I was fruit picking I would be sure to conceal the best apples to share with her. We grew fond of each other, but when I returned years later to see her, I learned that Jane had died of \*TB.

\*TB – y diciâu

## ADRAN C – BARDDONIAETH

### 4. Dadansoddwch **bwnc** a **mynegiant** y gerdd isod gan Gerallt Lloyd Owen.

- Wrth ddadansoddi'r gerdd hon dylech gyfeirio at gerddi neu weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc neu bynciau tebyg.
- Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [60]

*(Gallwch gyfeirio at weithiau perthnasol Cymraeg a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)*

### Cywydd Croeso Eisteddfod Genedlaethol Eryri

Mae gwledd o groeso heddiw  
ond croeso dan amod yw:  
croeso bro sy'n mynd am bris,  
croeso dan forthwyl creisis.  
Wrth yr awr syrth Eryri,  
wrth yr awr y'i gwerthir hi.

Ofer yw cynnal prifwyl,  
ofer dal i gynnal gŵyl  
o gerdd a chyngerdd a chân  
tra'r llif yn bwyta'r llwyfan.  
Ofer yw rhygnu hefyd  
am hil sydd yma o hyd.

Nid un Awst yw ein hystyr  
nid yw bod am dathliad byr  
yn Gymry, Cymry i'r carn,  
namyn tafod mewn tafarn.  
Byw brwydr bob awr ydyw  
brwydr fawr ein bryd ar fyw.

Rhaid i ŵyl ysbrydoli  
a thynhau'n gwarchodaeth ni  
wrth rwymau'r oesau a aeth  
yn Eryri'n harwriaeth.  
Hyn yw her ein hamser ni,  
hyn yw'r her yn Eryri.

Mae gwledd o groeso heddiw  
ond croeso dan amod yw:  
amod ein bod, bedwar ban,  
yn rhwystro llifio'r llwyfan.  
Da chi dewch, ac wedi'ch dod  
ewch ymaith dan eich amod.